“Rhowch chwi rywbeth i’w fwyta iddynt.” **(Marc 6:37)**

Mae’r Arglwydd Iesu yn dweud y geiriau syfrdanol hyn wrth ei ddisgyblion wrth iddynt weld yr angen i’r dyrfa fawr gael eu gollwng er mwyn prynu bwyd. Gwelwn yr Athro mawr yn dysgu ei ddisgyblion, a fydd yn arweinwyr ei Eglwys, ynglŷn â thosturi ac ynglŷn â ffydd.

Tosturi

Mae’r disgyblion newydd fod ar genhadaeth i gyhoeddi teyrnas Dduw yn ardal Galilea. Y mae’r Arglwydd yn gweld eu bod yn flinedig. Aeth Iesu â nhw i Bethsaida i gael ychydig o orffwys. Roedd y Bugail mawr yn gofalu am ei braidd bychan. Roedd yn gwybod bod peryg i ddyn fynd yn isel ar ôl gweithio’n galed, hyd yn oed mewn cenhadaeth lwyddiannus.

Ond ar ôl iddynt groesi’r dŵr, roedd tyrfa fawr yn disgwyl amdanynt. Sut oedd y disgyblion yn teimlo am hyn? Mae’n siŵr eu bod yn edrych ymlaen at ychydig o orffwys ac ychydig o lonydd gyda’r Arglwydd. Sut fyddai’r Arglwydd yn ymateb? A fyddai’n gwylltio mewn rhwystredigaeth?

Na, pan welodd Iesu’r dyrfa fe’i llanwyd â thosturi am eu bod fel defaid heb fugail. Roedd raid i’r encil gael ei ohirio! Byddai’n rhaid ceisio gorffwys yn nes ymlaen. Dyma wers fawr i’r disgyblion ynglŷn â thosturi anhunanol. Dyma’r math o berson allai ei roi ei hun dros eraill, a’r rheini’n hunanol ac yn ddifeddwl mewn un ystyr. Dyma’r math o berson allai ei roi ei hun dros bechaduriaid balch a gwrthryfelgar ar y groes maes o law.

Dyma wers i bob un sydd am fod yn ddisgybl i Grist. Rhaid i ni ddysgu gwasanaethu a gweini pan nad yw’n gyfleus i ni, pan fyddwn wedi blino neu’n wynebu amgylchiadau croes, pan mae’n mynd i gostio’n ddrud i ni, o bosib.

Ffydd

Yna, ar ôl i Iesu ddysgu’r bobl drwy’r dydd, mae’r disgyblion ‘ymarferol’ a ‘chyfrifol’ yn dweud wrtho i ollwng y dyrfa er mwyn iddynt gael bwyd cyn iddi nosi’n llwyr.

Mewn ymateb i hyn, mae’n awgrymu eu bod nhw yn eu bwydo! Doedd ganddynt ddim arian, doedd ganddynt ddim bwyd, ac roedd pum mil o ddynion yno, heb sôn am wragedd a phlant. Dyma wers fawr mewn ffydd, a gallu Duw i ddefnyddio adnoddau prin iawn i gwrdd ag angen mawr.

Yn ei amynedd rhyfeddol, mae’r Arglwydd yn dysgu’r disgyblion ar y pryd. Mae’n gofyn iddynt gasglu unrhyw fwyd sydd ar gael – pum torth a dau bysgodyn. Yn hytrach na gweld hyn yn chwerthinllyd a bychanu’r cyfraniad,

mae'r Arglwydd yn ei gymryd ac yn ei gyflwyno i Dduw i'w fendithio, ac yn ei luosi er mwyn digoni pawb.

Dyma wers sylfaenol ar gyfer darpar-arweinwyr y deyrnas. Sut allen nhw fynd â'r Efengyl i'r holl fyd? Sut allen nhw wybod ble a sut i fynd a pha bryd? Wel, dyma ddysgu y bydd Duw yn defnyddio eu hadnoddau prin nhw, ac yn eu lluosi ganwaith trwy ei nerth ei hun (nerth ei Ysbryd) i gwrdd ag angen byd. Rwy'n cofio clywed Dr. Billy Graham fwy nag unwaith yn defnyddio ymadrodd fel hyn: *'God doesn't need our ability as much as our availability.'*

Ac mae hon yn neges berthnasol i ni heddiw yng Nghymru, siŵr o fod. Yr ydym yn gweld tyrfaoedd o'n cwmpas heb wybod fawr am y Duw byw; am ei Air, am ei gariad a'i ras, ac am fod mewn perthynas bersonol a byw ag Ef. Yr ydym ni fel Cristnogion yn flinedig y dyddiau hyn. Mae'r eglwysi yn wan ac yn ofidus oherwydd bod achosion yn mynd yn llai a chapeli yn cau. Oherwydd ein bod yn poeni am ein dyfodol ein hunain, mae'n hawdd i ni anghofio am anghenion dyrys pobl sydd heb Grist, fel defaid heb fugail.

Ar ben hynny, yr ydym yn teimlo bod ein hadnoddau yn brin. Mae arian yn brin, mae gweithwyr yn brin, ac felly mae'n hawdd i ni deimlo na allwn wneud dim yn wyneb y dyrfa ddi-gred sydd o'n cwmpas. Mae'r hanes yma yn dangos i ni nad yw'r Arglwydd yn dilorni'r ychydig sydd gennym, os caiff ei gyflwyno i'w wasanaeth Ef. Gall Ef beri i'n hychydig ni fod o werth mawr i rywun arall, trwy ei nerth ei hunan.

Diolch am Fugail tosturiol, sydd yn amyneddgar gyda'i ddisgyblion. Diolch am Arglwydd mawr sydd yn abl i droi adnoddau dynol prin yn fendith fawr i lawer. Gadewch i ni weddïo am fwy o'i dosturi Ef i ni heddiw, gadewch i ni gyflwyno ein hadnoddau prin iddo, gan erfyn arno i'w lluosogi er ei ogoniant ac er lles ysbrydol tyrfaoedd anghenus ein cenhedlaeth ni.